| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Rhagfyr 2012** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams** |
| **Teitl:** | **Dynodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

---

**1. Beth yw testun yr adroddiad?**

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol ddynodi un o'i swyddogion i gyflawni ystod o swyddogaethau gwasanaethau democrataidd. Mae'r swyddog a ddynodir i'w alw'n 'bennaeth gwasanaethau democrataidd'.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

I gydymffurfio gyda gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r Canllawiau Statudol cysylltiol mewn perthynas â dynodi swyddog i gyflawni rôl statudol newydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (PGD).

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Tîm Gweithredol Corfforaethol (CET) yn argymell i'r Pwyllgor bod Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor yn cael ei ddynodi fel 'pennaeth gwasanaethau democrataidd' y Cyngor er dibenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**4. Manylion yr adroddiad.**

4.1 Yn y Cyfarfod Blynyddol ar 15 Mai 2012, penderfynodd y Cyngor mai aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd newydd (sy'n ofynnol yn ôl y Mesur Llywodraeth Leol) fyddai 11 o gynghorwyr (gyda chydbwysedd gwleidyddol) heb gynnwys aelod o'r Cabinet. Un o ddyletswyddau'r pwyllgor yw dynodi'r PGD.

4.2 Mae dynodiad y PGD yn swydd statudol, o dan gyfyngiadau gwleidyddol, a rôl y person hwnnw yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn adran 9 y Mesur. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys:

- Rhoi cymorth a chyngor (yn enwedig mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd)
- I'r Awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd
- I bwyllgorau'r Awdurdod ac aelodau pwyllgorau

- I unrhyw gydbwyllgor y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ei drefnu ac i aelodau o'r pwyllgor hwnnw
- Mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu, i holl Aelodau / Swyddogion
- I bob aelod o'r Awdurdod wrth iddo gyflawni rôl aelod
- Hyrwyddo rôl Pwyllgorau Craffu'r Awdurdod
- Paratoi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas ag adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd.

4.3 Ni chaiff y Cyngor ddynodi unrhyw un o'r canlynol yn PGD (adran 8 (4)):

- Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig
- Swyddog Monitro
- Prif Swyddog Cyllid

4.4 Mae paragraff 3.18 o'r Canllawiau Statudol i Fesur 2011 yn nodi *'mewn llawer o achosion, bydd yna berson amlwg sydd eisoes yn cyflawni llawer o swyddogaethau'r Pennaeth GD. Byddai disgwyl i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig wneud argymhelliad i'r PGD (Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) ynglŷn â phwy fyddai'n ymgeisydd addas'*.

4.5 Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi dynodi eu PGD. Yn yr achosion sy'n hysbys, maen nhw wedi dewis y swyddog sy'n uniongyrchol gyfrifol am reoli gwasanaethau / pwyllgor democrataidd yn unol gyda'r Canllawiau Statudol. Mae hyn yn golygu nad oes dyblygu gwaith a hefyd yn osgoi gwrthdaro posibl rhwng y ddarpariaeth gwasanaeth a'r rolau statudol sydd i bob pwrpas yr un fath. Ymhellach, bydd modd osgoi unrhyw risg o ran dyblygu rolau, cyngor a llinellau rheoli o fewn y gwasanaeth. Er nad oes modd i'r Swyddog Monitro fod yn PGD, nid oes cyfyngiad ar gael y PGD yn adrodd yn uniongyrchol i'r Swyddog Monitro.

4.6 Mae'r CET wedi ystyried pa swyddog y dylid ei ddynodi fel y PGD, ac wedi argymell mai'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ddylai lenwi'r swydd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yn berthnasol – mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gofynion statudol.

## 6. Beth fydd y gost a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn nag o'r argymhelliad.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a gynhaliwyd Sgriniad Asesiad Effaith Cydraddoldeb?

Yn unol gyda'r Canllawiau Statudol i Fesur 2011, ymgynghorwyd gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig ac aelodau eraill o'r CET.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae’r dynodiad a gynigir yn cyflawni’r gofynion yn ôl y Mesur Llywodraeth Leol heb greu cost ychwanegol.

## 9. Beth yw’r risgiau, ac a ellir gwneud unrhyw beth i’w lleihau?

Bydd cynghori’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ddynodi pennaeth gwasanaethau democrataidd yn cynorthwyo’r pwyllgor i gyflawni ei swyddogaeth statudol, a bwriedir i’r argymhelliad osgoi risgiau potensial all godi o ddyblygu rolau tebyg, ffynonellau cyngor a rheoli darpariaeth.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011